# Datblygu South Beach, Pwllheli – Bri ac Anfri

Yn gynnar yn y 19 ganrif rhoddwyd ffurf sefydlog i harbwr Pwllheli trwy godi dau forglawdd. Bu'r mwyaf o'r ddau – Y Cob – o fendith hirbarhaol i'r trigolion mewn llawer ffordd ond, mwy na hynny, ac am y tro cyntaf erioed, gallent gerdded ar ei hyd o'r dref at y traeth ysblennydd a oedd allan o'u cyrraedd cyn hynny heblaw mewn cwch. Cyn pen dim o amser bu sôn am godi tai gyferbyn â'r môr, yn bennaf ar gyfer denu ymwelwyr. O fewn ugain mlynedd i agor y Cob, ac hefyd am yr hanner can mlynedd nesaf, bu Saeson ariannog yn breuddwydio am ddatblygu'r lle. Yn y cyfnod hwnnw y bathwyd yr enw South Beach – gan y dieithriaid, gyda llaw, – ar ardal a adwaenid gan y trigolion yn syml fel Lan Môr. Yn anffodus roedd dau faen tramgwydd sylweddol ar y ffordd. Tir tywodlyd iawn oedd hwnnw yn ymylu ar yr arfordir, fel y gellid disgwyl efo tir a achubwyd o grafangau'r môr, ac oherwydd hynny doedd dim digon o ddŵr yfed ar gael; ac nid oedd modd trefnu unrhyw fath o garthffosiaeth ar raddfa sylweddol.

Erbyn 1882 roedd yr anhawsterau hynny wedi cael eu goddiweddyd, a medrai tref Pwllheli ddarparu cyflenwad o ddŵr croyw trwy bibau ar y naill law a chyfundrefn garthffosiaeth ar y llaw arall. Heblaw hynny, wrth i nwy gael ei gynhyrchu yno ers 1854, gellid meddwl am godi tai o safon ac adnoddau rhyfeddol o fodern yn y cyfnod hwnnw ac yn y rhan arbennig hwnnw o Gymru.

Doedd perchenogion y tir, Ystad Churton o Swydd Gaer, ddim yn barod i fentro eu hunain ond yn fodlon gwrando ar unrhyw gais gan rai eraill i ddechrau codi tai. Methodd pob cwmni a sefydlwyd i'r diben hwnnw yn ei ymgais. Gellir credu y byddai Ystad Churton wedi dechrau anobeithio, ond pan fynegodd nifer o wŷr lleol ddiddordeb canfuasant y buasai'r perchenogion yn barod i gyfrannu'n sylweddol o'u hadnoddau eu hunain, trwy osod strydoedd a gwneud promenâd. O'r cysylltiad hwn y daw'r enwau Victoria Parade, Churton Street a Potts Street yn y lle.

Does dim rheswm i amau mai'r taeraf o blaid gweithredu ymhlith pobl y lle oedd David Evan Davies, ysgrifennydd bywiog Cymdeithas Adeiladu Llŷn ac Eifionydd ers yr 1860au. Roedd yn gyfrifydd siartredig, yn gynghorydd tref, gweinidog ordeiniedig efo'r Methodistiaid Calfinaidd, dirwestwr pybyr, un o brif swyddogion Cymdeithas y Temlwyr Da yng Nghymru, ac yn hyrwyddwr adloniant yn yr iaith Gymraeg yn y capeli. Ymddiddorai ym mhob peth a gredai fyddai o les i'r gymuned ond i rai yn dymuno ymfudo cynrychiolai Dalaith Queensland, Awstralia. Roedd hefyd yn Rhyddfrydwr blaenllaw. Nid yw'n anodd dychmygu ei deimladau o rwystredigaeth pan ganfu amharodrwydd y gymdeithas adeiladu i gefnogi ei syniadau.

Gwelodd bod mwy nag un ffordd o fynd â Wil i'w wely a phan sicrhaodd gefnogaeth Robert Jones, rheolwr banc lleol, a brawd y Parchg. John Jones, F.R.G.S, gweinidog capel Penmount, Pwllheli, roedd ganddo un o bileri sefydliadol yr oes yn gymorth iddo, ond roedd angen un arall, un a oedd nid yn unig yn graig o arian ond hefyd yn hyddysg a phrofiadol fel masnachwr. Yn 1886, yn rhagluniaethol – felly y mae'n debyg yr edrychai ar y pryd – glaniodd un Edward Jones ym Mhwllheli. Gŵr canol oed yn



*David Evan Davies 1843–1914.*

enedigol o Nantglyn, Sir Ddinbych, a oedd newydd briodi Hannah Rowlands, merch tafarn y Whitehall yn y dref. Ymhlith ei brif gymwysterau i D. E. Davies, yn arbennig, oedd ei brofiad fel pregethwr efo'r Methodistiaid Calfinaidd, ond yn bwysig hefyd oedd y môr o brofiad a gawsai fel gŵr blaenllaw mewn masnach yn Lerpwl. Roedd yn ddyn carismatig ei gymeriad efo dawn hunanhysbysebol a llwyddodd, hefyd, i roi'r argraff ei fod yn graig o arian.

Fel eog yn codi at yr abwyd fe lyncwyd y newydd-ddyfodiad gan y trefwyr. Does dim syndod mai ef a welwyd fel y trydydd partner delfrydol gan Davies a Robert Jones ac fe'i etholwyd yn gadeirydd y *Pwllheli Land and Building Company*. Cyn bo hir roedd hefyd yn gadeirydd i'r ddau gwmni a oedd yn gyfrifol am gyhoeddi dau bapur newydd y dref, *Udgorn Rhyddid* a'r *Pwllheli Chronicle*.

A'r ddau bartner gwreiddiol yn aelodau blaengar o'r cyngor tref roedd Edward Jones yn faer cyn iddo fedru sychu ei geg, ac fe ail-etholwyd ef i'r swydd honno am y pedwar tro nesaf yn olynol. Digwyddiad hollol eithriadol yn hanes y dref. Gan deimlo nad oedd y gadwyn a wisgai'r maer o safon digon da i addurno ei frest prynodd un newydd, am £80.

Cyn diwedd 1888 gosodwyd cerrig sylfaeni y pum tŷ cyntaf yn South Beach, ac yn 1890, mewn seremoni ar Lun y Pasg, cyflwynodd Ystad Churton y strydoedd newydd, ynghyd â'r promenâd, i ddwylo Cyngor y Dref. Hwy, ac nid y drindod lleol, wahoddodd y Postfeistr Cyffredinol, H. C. Raikes, ffrind i'r teulu, i arwain y digwyddiad hwnnw. A hwythau'n Rhyddfrydwyr amlwg doedd hynny ddim yn debyg o fod wrth fodd y datblygwyr eu hunain, ond yn ôl y *Pwllheli Chronicle* llwyddwyd i gael Lloyd George, yntau, ar drothwy ei etholiad seneddol cyntaf, i fod yn rhan o'r miri. Codwyd eisteddfa ar gyfer y seremoni ond mi gwympodd rhan ohoni. Wrth feddwl beth oedd am ddod ymhellach ymlaen tybed a oedd rhywbeth arwyddocaol yn y digwyddiad hwnnw?

Erbyn 1893 roedd bron bob tŷ o'r South Beach yr oeddwn i yn ei adnabod yn ystod yr 1920au ar ei draed ac yn llawn o bobl ddieithr bob haf. Hynny a welodd Solomon Andrews, y gŵr busnes o Gaerdydd, wrth ymweld â'r lle yr haf hwnnw, pan ystyriai a brynai dir ei hun ar hyd y traeth ar gyfer datblygu. Datguddir pa genedl y gobeithid ei denu i Bwllheli trwy'r enwau a roddwyd ar y tai, er mai Cymry oedd luosocaf ymhlith y trigolion o bell ffordd. Enwau Saesneg llwyr oedd ar 26 ohonyn nhw, 7 yn rhai hanner Cymraeg/Saesneg, a 12 yn rhai Cymraeg. *Embankment Road* oedd y Cob. Mae'r enwau hyn yn brawf hollol glir o'r ffordd yr edrychai'r Cymry ar y diwylliant brodorol.

Yn y cyfamser roedd Edward Jones wrthi'n brysur yn troi ei dalentau i gyfeiriadau eraill. Cefnogai eisteddfodau, lleol a chenedlaethol, ac yn 1888 cyflwynodd udgorn neu gorn gwlad newydd i Orsedd y Beirdd yn ystod Eisteddfod Wrecsam. Am ei bod yn un rhy dila, yn ôl y Cofiadur, sicrhawyd un newydd yn 1901. Rhoddwyd cyfrol wedi'i rhwymo o Gyfansoddiadau Eisteddfod Gadeiriol Gwynedd, Pwllheli, 1889, iddo yn anrheg. Fe ddengys honno mai Iorwerth Heli oedd ei enw yn yr Orsedd. Yn 1890 mentrodd i fyd awduriaeth trwy olygu Gwaith Barddonol Edward Roberts (Iorwerth Glan Aled), ei ewythr. Fel a fynegwyd yn y *Pwllheli Chronicle* ar ddiwedd 1890, roedd hefyd mewn cytgord ag enwadau heblaw'r Methodistiaid Calfinaidd, a doedd neb yn barotach ei gyfraniad ariannol i achosion gwan, tuag at osod carreg sylfaen i gapel newydd a dathliadau arbennig, ac i elusennau. Lledaenodd gwybodaeth am ei haelioni fel tân gwyllt i bob rhan o Gymru. I ba raddau, tybed, oedd a wnelo hynny â'r cynnydd mewn cyhoeddiadau i bregethu mewn capeli? Roedd ei enwogrwydd ar gynnydd ac fe geir ei hanes fel Maer Pwllheli yn pregethu yng Ngŵyl Capel Chorlton Road, Manceinion, yn 1890.

Roedd ei enw ar wefusau'r werin a pha deyrnged gwell fedrai gael na'r gadwyn o englynion a gyfansoddwyd gan Ioan Glan Menai yn yr un flwyddyn:

Edward Jones, Maer Pwllheli, Wrth edrych ar ei ddarlun mewn albwm.

Wrth droi yr Albwm yma, – yn llawn moes,
Llun y Maer yw'r cynta',
A rhwydd garedigrwydd da,
Hyd ei wyneb dywynna.

Y 'Maer' sy'n llawn cymeriad, – yn perchen
Parch, a gwir ddylanwad.
Ni bu ei well, does neb a wâd,
Gonestwr teg yn wastad.

Gwirionedd ger ei wyneb – yn ddilwfr
Ddalia mewn ffyddlondeb;
Dyn a'i lond o uniondeb.
Gwyro barn ni wna ar neb.

Am ei dra uchel ymdrechion, – gwrol
A'i weithgarwch cyson,
Yn ddi-fai fe saif y y sôn,
I siarad oesau hirion.

Aeth ei lanwaith haelioni, – yn enwog
Yn hanes Pwllheli,
Aur, a nawdd ein hoff 'Faer' ni
Addurnodd. r'oes wedd arni.

Heb ball, eilwaith Pwllheli, – ddaw eto,
Pawb a ddotiant ati';
'E ddaw miloedd i'w moli,
Lawenhânt, ar ei glan hi

Eofn, addas foneddwr, a selog
Dros hawliau'r Gwaredwr,
Iawn a theg, mae'n gefn a thŵr.
Y' ngalwad efengylwr.

Dyn ydyw, da ei nodwedd, yn dilyn
Dihalog ffydd rhinwedd;
Hwn a roed mewn anrhydedd,
Gan ei dad yn 'gennad nef'.